

YMGYRCHWYR
BWYDA
THANWYDD



Cyngor @
Ariannol



Help gyda Chostau Byw

Wedi'ch drysu gan yr holl help sydd ar gael?

Cwestiynau Cyffredin

Gadewch i ni eich helpu – p'un a ydych chi'n gweithio neu beidio, yn rhentu neu'n berchen ar eich cartref.

Os oes **angen help** arnoch chi, rydych eisiau gwybod mwy am yr help sydd ar gael neu rydych chi'n cael trafferth fforddio eich biliau:

- ❖ Ffoniwch y **Llinell Gyngor** ar 029 2087 1071.
- ❖ Ewch i **www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk**,
- ❖ E-bostiwch hybcyngor@caerdydd.gov.uk
- ❖ Galwch heibio i'ch **Hyb lleol**

Ewch i www.hybiaucaerdydd.co.uk neu ffoniwch y Llinell Gyngor ar gyfer oriau agor ein Hybiau.

Mae incwm ein haelwyd ychydig yn rhy uchel ar gyfer budd-daliadau, ond rwy'n dal i'w chael yn anodd iawn. Ble gallaf gael cymorth?

- ✓ Gall ein cynghorwyr arian wirio eich amgylchiadau gan y gallai fod cynlluniau nad ydych wedi gwneud cais amdanynt. Gallant hefyd edrych ar sut y gallwch arbed peth o'ch gwariant.
- ✓ Os oes gennych ddyledion, gallwn eich helpu i reoli'r rheini.
- ✓ Ewch i'n gwefan www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk i weld awgrymiadau a chynghorion arbed arian.
- ✓ Bydd gennych hawl i'r gostyngiad o £400 oddi ar eich biliau ynni gan eich cyflenwr. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso'n fisol o fis Hydref a bydd tua £66 y mis am 6 mis. Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni i gael mwy o wybodaeth.
- ✓ Efallai eich bod yn gymwys ar gyfer Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru – **hyd yn oed os nad ydych yn derbyn budd-daliadau**, gallech chi fod yn gymwys os yw rhywun yn eich cartref yn cael budd-daliadau anabled. Taliad o £200 yw hwn. Ewch i'n gwefan <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Budd-daliadau-a-Grantiau/Effeithlonrwydd-ynni-a-thlodi-tanwydd/Cynllun-Cymorth-Tanwydd-y-Gaeaf/Pages/default.aspx> neu ffoniwch y Llinell Gyngor ar 029 2087 1071 i gael rhagor o fanylion

Rwy'n Oedran Pensiwn. Pa help ychwanegol sydd ar gael i mi?

Gallwn wirio eich bod yn cael yr holl arian a'ch help mae gennych hawl i'w derbyn

- ✓ Os ydych ar incwm isel, efallai y bydd gennych hawl i Gredyd Pensiwn – byddwn yn gwirio os ydych yn gymwys ac yn eich helpu i wneud cais
- ✓ Byddwn yn eich helpu i gofrestru ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth am gymorth ychwanegol gan eich cwmni ynni
- ✓ Yn ogystal gall Age UK ddarparu cyngor penodol www.ageuk.org.uk

Dwi'n talu fy nghostau tanwydd trwy ddebyd uniongyrchol, ond methu fforddio'r cynnydd. Beth gallaf ei wneud?

- ✓ Ffoniwch y Llinell Gyngor ar 029 2087 1071 neu galwch heibio i Hyb a gallwn eich helpu i wirio eich bod yn cael yr holl grantiau a gostyngiadau sydd ar gael i chi. Gall hyn gynnwys cymhwyso ar gyfer budd-daliadau, helpu i leihau eich biliau neu helpu i gael insiwleiddio neu foeler mwy effeithiol.
- ✓ Peidiwch â chanslo eich trefniadau debyd uniongyrchol – siaradwch â'ch **cwmni ynni** i weld a oes unrhyw gynllun talu y gallant ei gynnig i chi.
- ✓ Cadwch lygad barcud ar eich cyfrif banc i sicrhau nad yw eich debydau uniongyrchol yn cael eu gwrthod a'ch bod yn cael taliadau banc a ffioedd o ganlyniad. Siaradwch â'ch banc i weld pa help y gallant ei roi
- ✓ Defnyddiwch yr awgrymiadau arbed ynni yn www.cyngorariannolcaerdydd.co.uk i leihau eich defnydd o ynni.

Dwi'n defnyddio mesurydd rhagdalau a does gen i ddim arian ychwanegol i'w roi ynddo?

Ffoniwch y Llinell Gyngor ar 029 2087 1071, neu galwch heibio i Hyb i weld a ydych yn gymwys i gael talebau tanwydd brys.

- ✓ Byddwn hefyd yn gwirio eich bod yn cael yr holl arian a gostyngiadau y mae gennych hawl i'w derbyn.
- ✓ Cysylltwch â'ch cyflenwyr tanwydd am fanylion unrhyw help/cynlluniau maen nhw'n eu cynnig.
- ✓ Yn ogystal â thalu am ynni rydych chi'n ei ddefnyddio, mae angen i chi dalu "tâl sefydlog" dyddiol, felly cofiwch y bydd unrhyw gredyd ar eich mesurydd yn lleihau p'un a ydych chi'n defnyddio ynni ai peidio

Rwy'n anabl ac yn defnyddio mwy o ynni. Pa help sydd ar gael i mi?

Byddwn yn gwirio'ch budd-daliadau a'ch incwm arall er mwyn sicrhau eich bod yn cael popeth y gallwch

- ✓ Os oes gennych ddyfeisiau meddygol trydanol, byddwn yn eich helpu i gofrestru ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth os yw'n briodol
- ✓ Os ydych chi'n defnyddio crynodwr ocsigen, efallai y byddwch chi hefyd yn gallu hawlio arian yn ôl
- ✓ Mae'r elusen cydraddoldeb anabled Scope yn gallu cynnig help ychwanegol. www.scope.org.uk

Fel arfer dwi'n cael Gostyngiad Cartrefi Cynnes – alla i ymgeisio eto?

Mae'r cynllun wedi newid eleni. Dylech dderbyn y gostyngiad yma yn awtomatig os oes gennych hawl iddo.

- ✓ Bydd llythyrau'n cael eu hanfon atoch gan eich cyflenwr ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr os ydych yn gymwys yn awtomatig neu'n eich gwahodd i ffonio llinell gymorth i asesu a ydych yn gymwys.
- ✓ Mae'r meini prawf cymhwysedd wedi newid ac os oeddech yn ei dderbyn o'r blaen, efallai na fyddwch yn ei gael eleni.

Does gen i ddim bwyd ar hyn o bryd?

Ewch i Hyb neu fffoniwch y Llinell Gyngor ar 029 2087 1071 a gallant roi taleb Banc Bwyd i chi.

- ✓ Gallant hefyd helpu gyda thaliadau brys fel taliadau DAF (Cronfa Cymorth Dewisol).
- ✓ Byddant hefyd yn edrych ar eich incwm a'ch budd-daliadau i'ch helpu i sicrhau na fyddwch chi yn y sefyllfa hon eto.

Mae pantriâu bwyd ac oergelloedd lleol lle mae bwyd ffres a bwyd pecyn ar gael am bris llawer is.

 Ffoniwch y Llinell Gymorth ar 029 2087 1071

 Ebostiwch: hybcynghori@caerdydd.gov.uk

 cyngorariannolcaerdydd.co.uk

